Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Bro Morgannwg


Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3923A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad ac argymhellion 4

Adroddiad manwl

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 6

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn 6

Yr hyn a ganfuom: mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gamau gweithredu sy'n cyd-fynd yn glir â'r amcanion llesiant corfforaethol a diwylliant gweithio cefnogol ond mae bylchau mewn trefniadau llywodraethu'n gwneud rhai gweithdrefnau'n aneglur 7

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio 12

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb o'r adroddiad ac argymhellion

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad ac argymhellion**

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r rheswm y cynhaliom ni'r archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam fod trefniadau llywodraethu i ategu Gwasanaeth Cynllunio'n bwysig**

1 Mae'r gwasanaeth cynllunio a'r tîm polisi cynllunio'n wasanaethau allweddol i Gyngor. Mae'r gwasanaeth cynllunio'n rheoli datblygiad a defnydd tir er budd y cyhoedd. Mae'n cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

2 Rhaid i'r Gwasanaeth Cynllunio gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, gan sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac amwynder o ran y modd y defnyddir tir. Trwy wneud hynny bydd yn sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ac yn diogelu, hyrwyddo, gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol. Mae'r trefniadau llywodraethu i ategu'r gwasanaeth cynllunio'n hollbwysig i hyn.

**Ffocws ein harchwiliad**

3 Roedd ffocws yr adolygiad hwn ar drefniadau llywodraethu'r gwasanaeth cynllunio a oedd yn cynnwys y tîm polisi cynllunio. Fel rhan o hyn, fe wnaethom fwrw golwg ar sut y mae'r gwasanaeth cynllunio'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion ar y cyfan, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut y mae'r gwasanaeth cynllunio'n adolygu ac yn monitro ei drefniadau llywodraethu.

4 Ni wnaethom adolygu perfformiad y gwasanaeth cynllunio.

5 Ni wnaethom fwrw golwg ar benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio unigol.

**Ein canfyddiadau allweddol**

6 Canfuom fod gan y Gwasanaeth Cynllunio ddiwylliant gweithio cadarnhaol a'i fod yn cynorthwyo'r Cyngor yn effeithiol i gyflawni ei amcanion llesiant ond bod rhai bylchau mewn trefniadau llywodraethu y mae angen mynd i'r afael â hwy.

**Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

**Trefniadau llywodraethu**

A1 Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau llywodraethu ei Wasanaeth Cynllunio trwy:

- ddatblygu Protocol Cynllunio mewn iaith glir a'i gynnwys yn y cyfansoddiad ac ar dudalen y Gwasanaeth Cynllunio ar wefan y Cyngor fel ei fod yn hygyrch i aelodau ac i'r cyhoedd. Dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau a swyddogion yn deall y Protocol Cynllunio ac yn gweithredu yn unol ag ef.
- cytuno ar Gylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor i ddatgan yn glir beth yw ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau. Dylai'r Cyngor adolygu'r Cylch Gorchwyl hwn yn rheolaidd.
- cynnal ei adolygiad wedi'i gynllunio o'r Cynllun Dirprwyo i sicrhau bod y Gwasanaeth Cynllunio'n canolbwyntio ar y ceisiadau cynllunio sydd fwyaf pwysig yn strategol.
- sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan, neu ar ran, y swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio a gwasanaethau ategol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid dan bwerau a ddirprwywyd i swyddogion, i ddiogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hybu annibyniaeth a thryloywder.

**Cynllun gwasanaeth**

A2 Dylai Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor gyflwyno'i fesurau a thargedau perfformiad yn glir yn ei gynllun gwasanaeth.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn

1 Ein hamcan ar gyfer yr archwiliad hwn oedd cael sicrwydd pa un a oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei wasanaeth cynllunio sy'n sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio ei adnoddau.

2 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, arsylwi ar gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a chyfweliadau gydag aelodau etholedig a swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiom ni i oleuo ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn.

3 Aethom ati i geisio ateb y cwestiwn '**A yw'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â'r gwasanaeth cynllunio'n dangos trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio'i adnoddau?** Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio amcanion sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol corfforaethol?
- A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yr ymlynir wrthynt?
- A yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau?

4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr aethom ati i geisio'u hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiom ni i benderfynu ar ein canfyddiadau.

5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn ym mis Gorffennaf 2023.

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

6 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Yr hyn a ganfuom: mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gamau gweithredu sy'n cyd-fynd yn glir â'r amcanion llesiant corfforaethol a diwylliant gweithio cefnogol ond mae bylchau mewn trefniadau llywodraethu'n gwneud rhai gweithdrefnau'n aneglur

## Mae camau gweithredu allweddol y Gwasanaeth Cynllunio'n cyd-fynd yn glir ag amcanion llesiant y Cyngor

7 Mae'r gwasanaeth cynllunio'n allweddol i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'r gwasanaeth cynllunio'n cyfrannu ar adeg gynnar mewn datblygiadau prosiect mawr i helpu i gadarnhau a yw prosiect yn ddichonadwy ac mae'n cynghori ynghylch polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn cael cyngor cynllunio proffesiynol ar yr adeg briodol cyn dyrannu adnoddau a allai fod yn sylweddol i ddatblygu datblygiadau mawr nad ydynt o bosibl yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio perthnasol.

8 Mae amcanion y Gwasanaeth Cynllunio'n cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r cynllun gwasanaeth Datblygu Cynaliadwy 2023-24 a chynllun tîm y Gwasanaeth Cynllunio 2023-24 yn cynnwys camau gweithredu sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion y Cyngor. Fodd bynnag, dim ond y camau gweithredu cynllunio, gorfodi a pholisi a nodir yn y Cynllun Gwasanaeth Datblygu Cynaliadwy y mae cynllun tîm y Gwasanaeth Cynllunio'n eu hadlewyrchu. Nid oes unrhyw fanylion ychwanegol, unrhyw fesurau perfformiad nac unrhyw dargedau; felly gall y diffyg gwybodaeth fanwl, megis mesurau perfformiad, gyfyngu ar allu'r gwasanaeth i fonitro perfformiad a phenderfynu arno yn gywir.

9 Mae'r Cyngor wedi cynyddu ei adnoddau i roi cymorth i gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Y CDLl yw'r sail i benderfyniadau cynllunio a wneir gan y Cyngor a, lle y bo'n bosibl, mae'n cysylltu â nodau'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r tîm polisi cynllunio wrthi'n gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Mae hyn yn cael ei lywio gan ddyddiad terfyn y CDLl cyfredol sydd gerllaw gydag angen i'r CDLlN gael ei fabwysiadu erbyn mis Hydref 2026. Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith a fydd yn trefnu datblygiad y Sir a'r Cyngor yn y dyfodol. Mae cynhyrchu CDLlN yn mynd â llawer iawn o amser ac yn gostus. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y tîm polisi cynllunio wedi'i staffio'n llawn, ac roedd y Cyngor wedi cynyddu ei gyllideb ar gyfer 2023-24. Mae dyrannu adnoddau ychwanegol yn dangos y gwerth y mae'r Cyngor yn ei roi ar ddatblygu CDLlN a'i bwysigrwydd strategol i gyfrannu at ei amcanion llesiant.

10 Mae'r tîm polisi cynllunio'n cyfathrebu'n rheolaidd ac yn arloesol ynglŷn â chynnydd a gweithgarwch lle mae ei CDLlN yn y cwestiwn. Ceir tystiolaeth hefyd bod y tîm polisi cynllunio wrthi'n gyson yn myfyrio ac yn datblygu fel tîm yn

enwedig gyda'i ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu yn fewnol ac yn allanol. Mae'r swyddogion polisi cynllunio'n gweithio gyda Thîm Cyfathrebu'r Cyngor ar yr ymgysylltu hwn, sy'n dangos bodolaeth arferion gweithio integredig. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned, uwch swyddogion y Cyngor, aelodau etholedig, swyddogion cynllunio, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Bwrdd Iechyd lleol. Mae hyn yn dangos dull cydweithredol cryf o ddatblygu'r CDLIN.

## Ceir diwylliant gweithio cadarnhaol, cyfathrebu da a defnydd ystwyth o adnoddau yn y Gwasanaeth Cynllunio

11 Ceir diwylliant dysgu a datblygu cadarnhaol yn y gwasanaeth cynllunio gyda staff yn cael eu cefnogi'n dda gydag anghenion dysgu a datblygu. Ceir trefniadau wedi'u strwythuro'n dda ar gyfer cyfarfodydd tîm ehangach rhwng swyddogaethau rheoli datblygu, gorfodi a'r tîm polisi cynllunio, sy'n darparu llif cyfathrebu rheolaidd drwy'r gwasanaeth cynllunio cyfan, y mae swyddogion yn ei werthfawrogi. Mae'r llif cyfathrebu agored a rheolaidd hwn yn arwain at ddiwylliant gweithio cydweithredol a chefnogol.

12 O fewn y gwasanaeth, mae'r cyfarfodydd tîm wythnosol gydag arweinwyr tîm yn rhoi anogaeth i drafod ceisiadau neu achosion gorfodi mwy goddrychol neu gymhleth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn gwasanaeth cynllunio gan bod y modd y dehonglir polisi cynllunio'n oddrychol i ryw raddau. Felly, gall swyddogion cynllunio fod â barn wahanol o bryd i'w gilydd wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae'r trefniant hwn yn annog swyddogion i fod yn dryloyw a chyson wrth ymdrin â materion cynllunio.

13 Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth hirdymor buddsoddi yn rôl darpar gynllunwyr i'r gwasanaeth cynllunio. Mewn cydweithrediad gyda Phrifysgol Caerdydd, fe greodd y Cyngor rôl darpar gynllunydd i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n cwblhau eu gradd brifysgol gael profiad ymarferol o weithio mewn gwasanaeth cynllunio. Ymddengys fod y trefniant hwn wedi bod o fudd i'r myfyrwyr a'r Cyngor fel ei gilydd. Ei ganlyniad yn aml yw bod y Cyngor yn cyflogi Darpar Gynllunwyr fel Swyddogion Cynllunio gan felly gryfhau'r modd y mae'n cynllunio ar gyfer olyniaeth.

14 Mae gan y Cyngor swyddog Adran 106 (A106)[1]. Mae'r rôl hon yn darparu gwerth sylweddol am arian ac yn cynnig y potensial i ddangos yr effaith ymarferol iawn y gall cynllunio ei chael ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Cyngor wedi myfyrio ynghylch y rôl hon dros y blynyddoedd ac yn dod i'r casgliad ei bod yn cefnogi'r tîm, sy'n llywio amcanion corfforaethol ehangach, megis mannau gwyrdd ac agored a lles cymunedol.

[1] Contract preifat sy'n rhwymo mewn cyfraith rhwng datblygwr (neu nifer o bartïon â buddiant) ac Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) sy'n gweithredu ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio statudol yw cytundeb Adran 106 (A106).

15 Gall y Cyngor ddangos ei fod yn ystwyth gyda'i ddefnydd o adnoddau i ddiwallu anghenion y gwasanaeth. Cyn ein gwaith maes, roedd gan y Cyngor rôl uwch gynllunydd a oedd yn wag. Oherwydd galw uchel am arbenigwr cadwraeth, fe wnaeth y Cyngor recriwtio swyddog cadwraeth yn hytrach nag uwch gynllunydd fel a fwriadwyd yn wreiddiol gan bod angen am y sgiliau. Mae'r diwylliant hyblyg hwn yn galluogi'r gwasanaeth cynllunio i ymateb i bwysau mewnol ac allanol gan wneud gwasanaeth mwy cynaliadwy.

## Ceir bylchau yn nhrefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio sy'n arwain at ddiffyg gweithdrefnau eglur i gynorthwyo swyddogion cynllunio ac aelodau yn eu rolau

16 Ar adeg ein gwaith maes, roedd bylchau yn nhrefniadau llywodraethu Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor, ac felly y bu hi am beth amser. Mae tair dogfen allweddol a all ddarparu gweithdrefnau cadarn ac eglur ar gyfer y Cyngor i ategu trefniadau llywodraethu ei wasanaeth cynllunio: Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio; Cynllun Dirprwyo; a Phrotocol Cynllunio. Gyda'i gilydd, gallant ddarparu gweithdrefnau, disgwyliadau a safonau cadarn ar gyfer y Cyngor, y pwyllgor cynllunio a'r cyhoedd o ran y trefniadau llywodraethu hynny sy'n ategu'r gwasanaeth cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio.

17 Nid oes gan y Cyngor Gylch Gorchwyl eglur a digon manwl ar gyfer ei Bwyllgor Cynllunio. Mae'r Cylch Gorchwyl presennol ar gyfer y Pwyllgor yn datgan bod y Pwyllgor yn bodoli 'i ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â rheoli datblygu, gan gynnwys ceisiadau cynllunio'. Dylai bod â Chylch Gorchwyl eglur sy'n amlinellu diben ac amcanion, meysydd cyfrifoldeb allweddol a threfniadau adolygu'r Pwyllgor Cynllunio ddarparu eglurder a ffocws ar weithgarwch y pwyllgor hanfodol hwn yn y Cyngor. Nid yw'r diffyg eglurder hwn o gymorth i ddeall rôl y Pwyllgor Cynllunio'n eglur ac yn gyson. Gall hyn arwain hefyd at orddibyniaeth ar yr angen i Aelodau wybod beth yw eu rôl yn hytrach na chael eu cefnogi gan drefniadau eglur.

18 Nid yw Cynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth cynllunio'n cynnwys diffiniad eglur o geisiadau mawr neu strategol bwysig. Felly, nid yw hi'n glir ai'r Pwyllgor Cynllunio ynteu swyddogion, dan bwerau wedi'u dirprwyo, sy'n penderfynu ynghylch ceisiadau mawr. Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gam gweithredu o fewn ei Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 23-24 i adolygu'r cynllun dirprwyo i sicrhau bod y Pwyllgor Cynllunio'n canolbwyntio ar y materion mwyaf strategol. Gallai'r cam gweithredu hwn arwain at fwy o eglurder ynghylch pwy sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio strategol bwysig.

19 Nid yw cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys Cod Ymarfer Cynllunio na Phrotocol Cynllunio, sy'n aml yn rhan o gyfansoddiadau Awdurdodau Cynllunio eraill. Mae'n gosod safonau uniondeb ac ymddygiad y gall trigolion ac asiantau cynllunio sy'n gweithredu yn y Fro eu disgwyl gan ei haelodau a swyddogion ei Chyngor. Gall hefyd ddiogelu swyddogion y gwasanaeth cynllunio ac aelodau trwy fod â

threfniadau eglur ar gyfer sut y maent yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag asiantau ac ymgeiswyr cynllunio. Heb brotocol cynllunio, ceir diffyg cyfarwyddyd i aelodau, swyddogion a'r cyhoedd ar weithdrefnau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â materion cynllunio.

20 Yn nodweddiadol, gall Protocol Cynllunio/Cod ymarfer da mewn cynllunio gynnwys:

a. Cynnwys aelodau etholedig mewn cyngor cyn ymgeisio

b. Buddiannau personol, sy'n rhagfarnu ac ariannol

c. Rhagderfynu, rhagdueddu a thuedd

d. Lobïo Aelodau

e. Ymweliadau â Safleoedd

f. Cysylltiadau rhwng Swyddogion ac Aelodau

g. Cynnwys Aelodau o Wardiau Lleol yn y broses Gynllunio

h. Atgyfeirio ceisiadau cynllunio a ddirprwywyd at y Pwyllgor Cynllunio

i. Cynnal y cyfarfod

j. Siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio

k. Penderfyniadau sy'n groes i argymhellion swyddogion

l. Adolygu'r cod ymarfer

21 Nid yw'r Cyngor wedi diffinio dyletswyddau aelod o'r Pwyllgor Cynllunio wrth annerch y Pwyllgor yn eu cymhwyster fel Aelod o Ward Leol sydd wedi galw cais cynllunio gerbron y pwyllgor. Mae hyn hefyd yn cynnwys eglurder ynghylch eu hawliau pleidleisio'n ddiweddarach. Yn ystod ein gwaith maes, roedd barn wahanol ynglŷn â sut y dylai aelod ryngweithio â'r pwyllgor yn y sefyllfa hon. Trwy beidio ag egluro'r trefniadau hyn, ceir mwy o risg o wrthdaro buddiannau a rhagderfynu.

22 Byddai datblygu Protocol Cynllunio eglur a hygyrch yn darparu fframwaith i'r Cyngor ar gyfer y broses gynllunio. Byddai hyn o gymorth i hyfforddi, cefnogi a monitro'r Pwyllgor Cynllunio ac yn darparu ar gyfer hunanfyfyrio ac atebolrwydd am unrhyw wyriad oddi wrth y trefniadau.

23 Yn ystod ein gwaith maes, fe wnaethom nodi nad oes gofyniad ar hyn o bryd i gais a gyflwynwyd gan un o swyddogion y gwasanaeth cynllunio gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Caiff cais cynllunio a gyflwynwyd gan swyddog cynllunio ei benderfynu gan swyddogion cynllunio dan bwerau dirprwyedig. Er y caniateir y dull hwn, mae'n arfer da bod ceisiadau o'r fath yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae hyn yn helpu i ddiogelu swyddogion rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hybu annibyniaeth a thryloywder, yn enwedig ar gyfer y cyhoedd.

## Mae gan y Cyngor drefniadau digonol i fonitro cyfraniad y Gwasanaeth Cynllunio at yr amcanion llesiant ac adrodd ar hynny

24 Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio ac adrodd arno’n rheolaidd. Mae’r Cyfarwyddwr Lle’n cyflwyno adroddiad chwarterol ar berfformiad i bwyllgor craffu’r Amgylchedd ac Adfywio. Mae’r trefniant hwn yn darparu sicrwydd bod y gwasanaeth yn perfformio yn ôl y disgwyl ac, os oes angen, yn craffu ar feysydd lle ceir perfformiad gwael mewn modd amserol.

25 Mae’r adroddiad blynyddol A106 yn cynnwys gwerth cyfraniadau A106 y mae’r Cyngor yn eu cael a manylion y prosiectau y mae’r Cyngor yn dyrannu’r arian iddynt. Mae’r prosiectau hyn yn llywio amcanion ehangach y Cyngor, megis mannau gwyrdd ac agored, trafnidiaeth gynaliadwy a lles cymunedol, ac fe restrir y rhain yn yr adroddiad blynyddol. Mae’r adroddiad blynyddol hwn ar arian A106 yn cael ei anfon yn uniongyrchol at yr holl aelodau, a chynghorau tref a chymuned yn ogystal â chael ei lanlwytho i wefan y Cyngor. Mae hyn yn ffordd amlwg o adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau A106 a’u cyfraniadau eglur at yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac o fonitro hyn. Mae cyfle i roi cyhoeddusrwydd i lwyddiant ac effaith y gwaith hwn ac adrodd ar hynny’n fwy eang a dangos yr effeithiau cadarnhaol ymarferol iawn y gall cynllunio eu cael ar ddatblygu cymunedau.

26 Ers i’r gofyniad gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Cynllunio ddod i ben oherwydd y pandemig, nid oes adroddiad ar wahân sy’n dwyn yr holl wybodaeth am berfformiad, llwyddiant a heriau’r Gwasanaeth Cynllunio ynghyd mewn un lle i’w hadolygu. Er nad oes gofyniad i hyn ddigwydd, mae cyfle i’r gwasanaeth amlygu heriau cyfredol a’r gwaith cadarnhaol y mae’r gwasanaeth yn ei gyflawni.

# Atodiad 1

## Cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio

Isod ceir y cwestiynau yr oeddem yn ceisio'u hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiom ni i benderfynu ar ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn yr archwiliad: **A yw'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â'r gwasanaeth cynllunio'n dangos trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio'i adnoddau?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
| --- | --- |
| 1. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio amcanion sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol corfforaethol? | Mae gan y gwasanaeth cynllunio gynllun busnes (neu ddogfen gyfatebol) sy'n cynnwys amcanion perthnasol a gaiff eu deall gan y rhai sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cynllunio.<br>Mae amcanion y Cynllun Datblygu Lleol wedi'u hintegreiddio yn y broses o ddarparu'r gwasanaeth cynllunio.<br>Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi nodi mesurau sy'n adlewyrchu effeithiau byrdymor a hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol.<br>Mae gan y Cyngor drefniadau cyfathrebu mewnol effeithiol gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd o fewn y gwasanaeth a chyda'i bartneriaid.<br>Ceir diwylliant cefnogol i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau mewn barn broffesiynol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac achosion gorfodaeth gynllunio.<br>Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer cynlluniau busnes y gwasanaeth dros y tymor canolig a hwy hyd y bo'n ymarferol (e.e. cynlluniau i gefnogi datblygiadau megis Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a.y.b.)<br>Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi'i integreiddio fel galluogwr allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| 2. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yr ymlynir wrthynt? | Ceir cylch gorchwyl eglur ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.<br>Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a staff cynllunio'n cael hyfforddiant a chymorth priodol i ddeall amcanion y gwasanaeth, polisïau cynllunio, rôl aelod o'r pwyllgor a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor.<br>Mae gan y Cyngor brotocol pwyllgor cynllunio (neu ddogfen gyfatebol) sy'n cynnwys cod ymddygiad a threfniadau gweithdrefnol ar gyfer y pwyllgor cynllunio y mae swyddogion ac aelodau'n eu deall ac yn ymlynu wrthynt.<br>Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad i aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio ynghylch polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor.<br>Mae gan y Cyngor gynllun dirprwyo eglur a thryloyw yr ymlynir wrtho.<br>Mae gan y gwasanaeth cynllunio brosesau eglur a thryloyw ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| 3. A yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau? | Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n dangos sut y mae'n cynnwys staff a phartneriaid allweddol wrth ddylunio'r modd y darperir y gwasanaeth yn y dyfodol.<br>Ceir diwylliant dysgu a datblygu cefnogol ar gyfer staff cynllunio ac Aelodau sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.<br>Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio ddiwylliant o ddatblygu'n barhaus ac maent yn arsylwi ar arfer gorau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill.<br>Ceir trefniadau i'r Gwasanaeth Cynllunio adrodd ar ei berfformiad yn erbyn ei amcanion wrth uwch reolwyr, aelodau a'r cyhoedd. |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.